Y Gwynt a'r Haul yn Ffraeo

Pawb a'i rôl

Bob dydd byddai'r haul a'r gwynt yn ffraeo. 'Roedd y ddau yn genfigennus iawn o'i gilydd. 'Roedd pawb yn gallu gweld yr haul ond doedd neb yn gallu gweld y gwynt - dim ond y pethau oedd yn cael eu chwythu. Un diwrnod dyma'r ddau yn cyfarfod ar ben y mynydd. Dechreuodd y ddau sôn am y pethau roedden nhw'n gallu eu gwneud.

"Rydw i" meddai'r haul, "yn dod a'r haf i aeddfedu'r ffrwythau ac mi rydw i'n gallu gorchuddio'r ddaear efo blodau hardd."

"Ond beth amdana i, ynte?" gofynnodd y gwynt. "Mi rydw i'n gallu siglo'r coed a symud y moroedd i ddod a'r gaeaf yn ei dro."

Felly, bob dydd, byddai'r ffraeo yn mynd ymlaen. Bob amser roedden nhw'n dadlau pwy oedd y cryfaf.

"Y fi" meddai'r gwynt.

"Na" meddai'r haul, "y fi ydi'r cryfaf."

"Beth bynnag" meddai'r gwynt wrth yr haul, "mi rydw i'n gryfach o lawer na ti."

"Felly'n wir", meddai'r haul â gwen lydan ar ei wyneb. "Mi gawn ni weld."

Pwy welson nhw'n dod i fyny'r mynydd ond dyn yn gwisgo côt fawr, drwchus. 'Roedd o'n cerdded yn araf o gam i gam.

"Y fi ydi'r cryfa o'r ddau ohono ni", meddai'r gwynt. "Beth am i ni gael gweld. Mi fedra i dynnu côt y dyn acw oddi amdano cyn y medri di wneud hynny."

"Beth am i ti drio gwneud hynny. Mi af i gysgodi tu ôl i'r cwmwl du fan acw" meddai'r haul.

Aeth yr haul i gysgodi am ychydig tu ôl i'r cwmwl du. Dechreuodd y gwynt chwythu a chwythu. Daliodd ati i chwythu ond 'roedd y dyn yn lapio'i gôt yn dynnach amdano. 'Roedd canghennau'r coed yn plygu a'r dail yn cael eu chwythu i bob cyfeiriad ond cau ei gôt yn dynn, dynn wnaeth y dyn. Er iddo chwythu'n gryfach a chryfach dal i lapio'i gôt yn

dynn amdano wnaeth y dyn.
"Wel, beth am i mi drio yn awr" meddai'r haul â gwen ar ei wyneb.
Yn araf daeth yr haul i'r golwg. Diflannodd y cwmwl du. Dechreuodd y dyn deimlo'n gynnes. Agorodd fotymau ei gôt fawr. Roedd yn mynd yn boethach a phoethach. 'Roedd gwres yr haul yn ormod i'r dyn. Tynnodd ei gôt fawr oddi amdano. Rhedodd i'r goedwig i chwilio am gysgod. Yno y bu'n eistedd o dan y coed yn chwysu ac yn chwysu.
"Wel, Mr Gwynt," meddai'r haul, "wyt ti'n dal i feddwl mai ti ydi'r cryfaf o'r ddau ohonom?" Wnaeth y gwynt druan ddim ateb o gwbl. Dim ond awel dyner oedd o erbyn hyn. Chwythodd ei hun yn araf tua'r de. Ond wnaeth o ddim ffraeo a dadlau efo'r haul byth wedyn. 'Roedd wedi dysgu ei wers. Ond mi 'roedd yna rai pethau 'roedd y gwynt yn gallu eu gwneud hefyd. Ond doedd o ddim am ddadlau efo'r haul na neb arall dim ond gwneud ei waith ei hun. Ac fe wnaeth ei waith yn rhagorol.
"Oes", meddai'r haul," mae gan bob un ohonom waith arbennig i'w wneud a dim ond ni fedr wneud y gwaith hwnnw." Teimlodd y gwynt yn hapusach ar ôl clywed y geiriau hyn.

O Dduw, helpa fi i wneud y gwaith wyt ti eisiau i mi ei wneud. Amen.

✦ Fedrwch chi feddwl beth mae'r gwynt yn gallu'i wneud yn well na'r haul.
✦ Oes yna bethau da fedrwch chi eu gwneud?